# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a salwch terfynol

Briff Technegol

**Tachwedd 2025**

| Cam Gweithredu |
|---|
| **Cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.** |

## 1. Pam y cam gweithredu hwn?

- Mae gormod o bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru. Yn 2024, bu farw 6,100 o bobl mewn tlodi, sy'n cyfateb i 17% o'r holl farwolaethau yng Nghymru y flwyddyn honno.[1]
- Gellir defnyddio a dylid defnyddio budd-daliadau a weinyddir yng Nghymru i atal pobl sy'n byw gyda salwch terfynol rhag cyrraedd pwynt o fod mewn argyfwng ariannol, yn ogystal â sicrhau bod cymorth argyfwng yn diwallu eu hanghenion.
- Y dreth gyngor yw'r gost sefydlog fwyaf sydd gan y rhan fwyaf o aelwydydd ar ôl tai.[2] Yn 2024-25, £2,024 y flwyddyn ar gyfartaledd (£169 y mis) oedd y dreth gyngor Band D.[3]
- Ar ôl pasio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rheoliadau cenedlaethol newydd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn gymwys i gael gostyngiad i'r dreth gyngor.

## 2. Trefniadau gostyngiadau'r dreth gyngor presennol

- Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

[1]Marie Curie Cymru (2025) *Dying in Poverty in Wales 2025*
[2]Cyngor ar Bopeth (2022) *Dyledus: Profiadau o ôl-ddyledion treth gyngor yng Nghymru*
[3] Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru "Lefelau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2024 i Mawrth 2025"

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

(Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) yn nodi manylion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cynnwys yn eu CTRS.

- Mae rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru greu cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r symiau o dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu ddosbarthiadau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol.
- Mae CTRS ar gael i aelwydydd incwm isel.[4] Rhaid i aelwydydd fod yn derbyn un o'r canlynol i fod yn gymwys:
    - Lwfans Ceisio Gwaith
    - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
    - Credyd Pensiwn
    - Cymorth Incwm
- Gwneir ceisiadau i awdurdodau lleol, sydd i gyd fel arfer yn cynnig yr un gostyngiadau.
- Gwnaed newidiadau diweddar i leddfu'r baich gweinyddol ar aelwydydd cymwys er mwyn galluogi'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol i wneud ceisiadau awtomatig. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i ddefnyddio data Credyd Cynhwysol fel bwriad i hawlio.[5]

## 3. Sut y gellid cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

### 3.1. Rheoliadau CTRS cenedlaethol newydd

- Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau bilio ynghylch y ffordd y caiff y cynllun ei ddefnyddio.[6]
- Yn dilyn ymgynghoriad, dewiswyd amserlen arafach ar gyfer diwygio'r dreth gyngor, gyda newidiadau i fod i ddigwydd yn 2028.
- Disgwylir i ymgynghoriadau ar newidiadau penodol i ddisgowntiau a gostyngiadau'r dreth gyngor gael eu rhyddhau wrth iddynt gael eu datblygu.[7]
- Dylid gwneud gwaith ar frys i ddatblygu'r rheoliadau cenedlaethol newydd ac i gynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn y CTRS newydd.

---

[4] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/disgownt-a-gostyngiad-treth-gyngor-taflen.pdf [Cyrchwyd 17.09.24]
[5] Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 https://senedd.cymru/media/4tnjl2e4/sub-ld16855-em-w.pdf [Cyrchwyd 29.01.2025]
[6] https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-cyllid-llywodraeth-leol-cymru-2024 [Cyrchwyd 29.01.25]
[7] https://www.gov.uk/government/news/council-tax-reform-in-wales.cy#::text=We%20will%20consult%20on%20further,correct%20amount%20of%20Council%20Tax. [Cyrchwyd 29.01.25]

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

## 3.2. Cymhwysedd o dan Reolau Arbennig

- Mae pobl sy'n agosáu at ddiwedd oes yn cael eu cefnogi drwy'r system budd-daliadau o dan 'Reolau Arbennig'. Mae'r Rheolau Arbennig yn caniatáu i bobl sy'n agosáu at ddiwedd oes gael mynediad cyflymach a haws at fudd-daliadau penodol, cael taliadau uwch ar gyfer budd-daliadau penodol ac osgoi asesiad meddygol.[8]
- Yng Nghymru a Lloegr, gall clinigwr lenwi ffurflen SR1 ar gyfer oedolyn neu blentyn pan fo'n debygol y bydd ganddynt lai na 12 mis i fyw, sydd wedyn yn eu galluogi i gael budd-daliadau o dan Reolau Arbennig.
- Gellid defnyddio'r un broses i benderfynu ar gymhwysedd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gallai hefyd alluogi pobl i ymgeisio'n awtomatig, fel sy'n digwydd i bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd ac sy'n gymwys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor. Byddai hyn yn osgoi baich gweinyddol ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol.

## 3.3. Lefel y gostyngiad

- Byddem yn argymell bod y gostyngiadau canlynol yn cael eu rhoi i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol:
    - Ar gyfer aelwyd un person: gostyngiad o 100%.
        - Byddai hyn yn ychwanegu gostyngiad pellach o 75% at y disgownt i un person y byddai'r aelwydydd hyn eisoes yn gymwys i'w gael.
    - Ar gyfer aelwyd 2 oedolyn: gostyngiad o 50%
    - Ar gyfer aelwydydd 3 oedolyn neu fwy: gostyngiad o 25%

## 3.4. Ystyried profion modd

- Gellid ystyried profion modd pellach, er y byddem yn argymell mabwysiadu un dull cyffredinol ar sail y gostyngiadau uchod.
- Yn 2024-25 nid oedd 84.3% o'r rhai a dderbyniodd ostyngiad yn y dreth gyngor yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl.[9] Felly, mae'n debyg y byddai dull a fyddai ddim ond yn cynyddu gwerth gostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n byw gyda salwch terfynol sydd eisoes yn gymwys ar gyfer y CTRS yn cyrraedd nifer fach iawn o bobl.
- Ein barn ni yw y byddai'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a phobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn gorbwyso unrhyw enillion ariannol posibl o roi profion modd pellach ar waith.
- Yn ogystal, y rhesymeg dros ehangu'r CTRS i'r rhai sydd â salwch terfynol yw cael arian i bocedi pobl mor gyflym a hawdd â phosibl i leihau'r risg o ansicrwydd ariannol a thlodi. Byddai ychwanegu haen bellach o brofion modd yn peryglu tanseilio'r egwyddor hon.

## 3.5. Costau

[8] https://www.gov.uk/government/publications/dwp-factual-medical-reports-guidance-for-healthcare-professionals/e5b3b502-9067-4b20-93c0-1006d9cb0edb [Cyrchwyd 29.01.25]
[9] *Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor* Llywodraeth Cymru (2025): *Adroddiad Ystadegol 2024-25*

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

- Nid yw datblygu’r costau ar gyfer y cynnig polisi hwn heb ei heriau. O ganlyniad i’r diffyg data sydd ar gael, mae cyfyngiadau a rhagdybiaethau sylweddol i'r modelu costau. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y briff cysylltiedig, ynghyd ag amcangyfrifon costau.

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a’r Alban (SC038731) Wedi’i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.